# Y Cyfarfod Llawn

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 9 Tachwedd 2011**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

## Agenda
(28)v2

**1. Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)**

Gweld y cwestiynau

**2. Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (45 munud)**

Gweld y cwestiynau

**3. Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (15 munud)**

Gweld y cwestiynau

**4. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)**

**NDM4844 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod cyfraniad ac ymrwymiad anferth holl aelodau'r Lluoedd Arfog Cymreig; a

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) cydnabod yn ffurfiol canmlwyddiant y Rhyfel Mawr yn 2014;

b) gwneud popeth posibl i roi sylw i anghenion ein lluoedd arfog a chyn-filwyr gydag Anhwylder Straen Wedi Trawma, gan gydnabod y bydd hyn yn golygu ymgysylltu'n uniongyrchol â nhw; ac

c) datblygu a gweithredu Cerdyn penodol ar gyfer y Lluoedd Arfog.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu ar ddiwedd is-bwynt 2a):

drwy, ymysg pethau eraill, archwilio'r posibilrwydd o sefydlu Sefydliad Heddwch yng Nghymru.

*[os derbynnir gwelliant 2, bydd gwelliant 3 yn cael ei dad-ddethol]*

**Gwelliant 2 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Ym mhwynt c, dileu "datblygu a gweithredu" ac yn ei le rhoi "ystyried gweithredu"

**Gwelliant 3 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ym mhwynt 2 c), dileu 'datblygu a gweithredu' ac yn ei le rhoi 'ystyried dewisiadau ar gyfer ymgynghori ynghylch'

**5. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)**

**NDM4845 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) gwneud economi wledig Cymru yn fwy cystadleuol drwy wneud gwelliannau mewn seilwaith;

b) diogelu dyfodol Cymru wledig drwy helpu busnesau gwledig i gynyddu nifer y swyddi a chynorthwyo pobl ifanc i aros mewn ardaloedd gwledig; ac

c) ymrwymo i adolygu'r holl reoliadau a'r fiwrocratiaeth sy'n effeithio ar yr economi wledig.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu ar ddiwedd is-bwynt 1b):

, ymwrthod ag ymdrechion i ddiwygio'r PAC mewn unrhyw ffordd a fydd yn tanseilio'r economi wledig.

**Gwelliant 2 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

‘Yn gresynu bod cymorth penodol yn cael ei dynnu oddi wrth ffermwyr mewn Ardaloedd Llai Ffafriol dan y cynllun Glastir, a fydd yn cael effaith andwyol ar yr economi wledig.’

**Gwelliant 3 – Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

‘Yn croesawu’r £56.9 miliwn y mae Llywodraeth y DU wedi’i ddyrannu i gyflwyno band eang y genhedlaeth nesaf yng Nghymru, a fydd yn help mawr i’r economi wledig.’

**6. Dadl Plaid Cymru (60 munud)**

**NDM4846 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn gresynu wrth fethiant Llywodraeth Cymru i:

a) ymateb yn weithredol i’r argyfwng economaidd presennol;

b) delio â’r problemau a wynebir gan y sector gweithgynhyrchu; ac

c) mynd i’r afael â diweithdra ymysg pobl ifanc; a

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno pecyn cynhwysfawr o fesurau i fynd i’r afael â’r argyfwng economaidd presennol, yn cynnwys dwyn prosiectau cyfalaf ymlaen er mwyn rhoi hwb i’r sector adeiladu ac i greu swyddi.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ym mhwynt 1, ar ôl ‘fethiant’, rhoi ‘presennol, a blaenorol,’

**Gwelliant 2 – William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ym mhwynt 2, dileu popeth ar ôl ‘presennol,’ a rhoi yn ei le
chwilio am fwy o gyllid arloesol i roi hwb i’r sector adeiladu ac i greu swyddi yn y sector preifat.

**Gwelliant 3 – Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

“Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi'r mathau o gyllid preifat y mae wedi bod yn eu hystyried, a sut mae modd defnyddio'r rhain i ymateb i wella economi Cymru."

**Gwelliant 4 – Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

“Yn croesawu’r ffaith efallai y bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried galluogi ariannu drwy gynyddrannau treth i helpu adfywio economaidd, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno cynigion pendant cyn gynted ag sy’n ymarferol.”

**Gwelliant 5 – Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod pwysigrwydd Ardaloedd Menter i economi Cymru ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi amserlen ar gyfer eu cyflwyno.

**Cyfnod Pleidleisio**

**7. Dadl Fer (30 munud)**

**NDM4843 Leanne Wood (Canol De Cymru):**

Banciau bwyd – ceginau cawl yr oes fodern?

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30 Dydd Mawrth, 15 Tachwedd 2011